

## **Arolygiad Ysbyty (Lle rhoddwyd rhybudd)**

Ysbyty Tywysoges Cymru –  
Gwasanaethau Mamolaeth,  
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf  
Morgannwg

Dyddiad yr arolygiad: 22 – 24  
Mawrth 2022

Dyddiad cyhoeddi: 23 Mehefin  
2022

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu**  
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**  
**Llywodraeth Cymru**  
**Parc Busnes Rhyd-y-car**  
**Merthyr Tudful**  
**CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn: 0300 062 8163**  
**E-bost: [agic@llyw.cymru](mailto:agic@llyw.cymru)**  
**Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)**

## Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom .....	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad .....	6
3.	Yr hyn a ganfuom .....	8
	Ansawdd profiad y claf .....	9
	Darparu gofal diogel ac effeithiol .....	18
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth .....	30
4.	Beth nesaf? .....	36
5.	Sut rydym yn arolygu ysbytai .....	37
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad.....	38
	Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith .....	39
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	43

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

## Ein gwerthoedd

Mae cleifion wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

## Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arferion da

Dylanwadu ar bolisiâu a safonau:

Defnyddio'r hyn a welwn i ddylanwadu ar bolisiâu, safonau ac arferion

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Ysbyty Tywysoges Cymru yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg gyda'r nos ar 22 Mawrth, a'r dyddiau canlynol, sef 23 a 24 Mawrth 2022. Gwnaethom gyhoeddi'r arolygiad 24 awr cyn i ni gyrraedd oherwydd rheoliadau COVID-19 y bwrdd iechyd. Ymwelwyd â'r safleoedd a wardiau ysbyty canlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

- Ward 12 – ward cynenedigol (cyn geni) gyda chapasiti o 12 gwely a ward ôl-enedigol (ar ôl geni) gyda chapasiti o 14 gwely
- Uned dan arweiniad bydwagedd – gyda chapasiti o ddwy ystafell geni ac un pwl geni
- Ward esgor – (yn ystod y cyfnod esgor) gyda chapasiti o chwe ystafell geni ac un pwl geni
- Ardal asesu brysbennu
- Dwy theatr llawdriniaethau.

Roedd ein tîm, ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau arolygydd AGIC, tri adolygydd cymheiriaid clinigol (un obstetrydd ymgynghorol a dwy fydwraig) ac un adolygydd lleyg. Arweiniodd arolygydd AGIC yr arolygiad.

Archwiliodd AGIC sut yr oedd y gwasanaeth yn bodloni Safonau Iechyd a Gofal 2015.

Ceir manylion pellach am sut rydym yn cynnal arolygiadau o ysbytai yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Gwelsom dîm o staff ymroddedig a oedd yn ymrwymedig i ddarparu safon uchel o ofal i gleifion.

Gwelsom staff yn rhyngweithio â chleifion yn barchus drwy gydol yr arolygiad. Dywedodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn cael gofal da. Roedd staff yn gadarnhaol am y cymorth a'r arweinyddiaeth roeddynt yn eu cael.

Nodwyd pryderon gennym ynghylch rhagnodi meddyginiaeth ysgogi yn ystod y cyfnod esgor ac roedd angen gwella nifer o agweddau ar gofnodion y cleifion.

Mae angen gwneud gwelliannau pellach o ran rheoli gwybodaeth a chydymffurfedd llywodraethu.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y cleifion yn gadarnhaol ynghylch y gofal a'r driniaeth a ddarparwyd yn ystod eu hamser yn yr uned
- Gwelsom rhyngweithio proffesiynol, caredig ac urddasol rhwng y staff a'r cleifion
- Roedd ystod dda o wybodaeth hyrwyddo iechyd wedi'i harddangos
- Roedd trefniadau da ar waith i ddarparu cymorth profedigaeth i gleifion a theuluoedd
- Rheolaeth dda o weithgareddau clinigol dyddiol
- Dywedodd y staff eu bod yn teimlo bod y rheolwyr yn eu cefnogi a'u bod yn teimlo'n hyderus i godi unrhyw faterion neu bryderon
- Roedd arweinyddiaeth bydwreigiaeth a meddygol cryf yn amlwg a chynigiwyd cymorth da i'r staff.

Rydym yn argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r meysydd canlynol:

- Lliniaru risgiau ynghylch cipio babanod
- Adolygu'r weithdrefn ar gyfer rhagnodi meddyginiaeth ysgogi yn ystod y cyfnod esgor
- Storio a diogelwch meddyginiaethau
- Nifer o agweddau ar gadw cofnodion cleifion
- Rheoli cydymffurfedd gweithdrefnau ar gyfer llywodraethu gwybodaeth.

### 3. Yr hyn a ganfuom

#### Cefndir y gwasanaeth

Mae Ysbyty Tywysoges Cymru wedi'i leoli ym Mhen-y-bont ar Ogwr ac mae'n rhan o wasanaethau a ddarperir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Ffurfiwyd y bwrdd iechyd ar 1 Ebrill 2019 ac mae'n cwmpasu ardaloedd Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf.

Mae gan y bwrdd iechyd ddalgylch ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd sy'n cynnwys poblogaeth o tua 450,000. Darperir gwasanaethau aciwt, canolradd, sylfaenol, cymunedol ac iechyd meddwl. Darperir gwasanaethau mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys tri ysbyty: Ysbyty Brenhinol Morgannwg, Ysbyty'r Tywysog Siarl ac Ysbyty Tywysoges Cymru.

Mae gwasanaethau mamolaeth yn cael eu cynnig i bob claf o fewn ffiniau daearyddol y bwrdd iechyd. Mae gan gleifion ddewis o nifer o leoliadau geni. Mae'r rhain yn cynnwys genedigaethau cartref, uned annibynnol dan arweiniad bydwragedd, gofal dan arweiniad bydwragedd, ynghyd ag unedau bydweigiaeth ac unedau obstetrig.

Ym mis Ebrill 2019, cafodd gwasanaethau mamolaeth y bwrdd iechyd (yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg ac Ysbyty'r Tywysog Siarl) eu rhoi dan fesurau arbennig<sup>1</sup> gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Roedd hyn yn dilyn adolygiad annibynnol<sup>2</sup> o wasanaethau mamolaeth a gynhelir gan Goleg Brenhinol y Bydwragedd a Choleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr.

---

<sup>1</sup><https://llyw.cymru/gwasanaethau-mamolaeth-cwm-taf-morgannwg-mewn-mesurau-arbennig-wrth-i-adroddiad-nodi-methiannau>

<sup>2</sup> <https://llyw.cymru/adolygiad-o-wasanaethau-mamolaeth-bwrdd-iechyd-prifysgol-cwm-taf>

## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Gwelsom staff yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â chleifion yn briodol ac yn trin cleifion gydag urddas a pharch.

Dywedodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn cael gofal da yn yr ysbyty.

Fodd bynnag, nododd rhai ohonynt y dylid cynnal adolygiad ynghylch y cyfyngiadau ar ymweliadau.

Rhaid i'r bwrdd iechyd fynd i'r afael â'r materion amgylcheddol ar y wardiau er mwyn gwella ansawdd profiad y claf.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion a gofalwyr er mwyn cael eu safbwyntiau am y gwasanaethau a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o 12 o holiaduron. Mae mwyafrif yr ymatebion yn nodi profiad claf cadarnhaol ar gyfer y lleoliad hwn.

Cafwyd y nifer uchaf o sylwadau cadarnhaol mewn ymateb i gwestiynau am gymorth cyn-geini, ac atal a rheoli heintiau. Roedd yr ymatebwyr yn arbennig o gadarnhaol am y gofal yr oeddynt yn ei dderbyn gan staff mamolaeth, a dywedodd yr holl ymatebwyr fod y staff yn eu trin ag urddas a pharch, a'u bod bob amser yn gwrtais, yn gwrando arnynt ac yn darparu gwybodaeth a chymorth.

Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys:

*“Roedd pawb wnes i gyfarfod â nhw mor hyfryd a gofalgar. Byddaf yn ddiolchgar am byth.”*

*“Roedd pob aelod o staff yn eithriadol. Dwi wedi cael y gofal gorau.”*

*“Roedd yr ymweliad ag Ysbyty Tywysoges Cymru yn brofiad gwych. Dwi'n edrych ymlaen at enedigaeth fy mhlentyn yma.”*

Cafwyd rhai ymatebion negyddol i gwestiynau ynghylch y cymorth yn ystod y cyfnod esgor/yr enedigaeth a'r gofal ôl-enedigol, ond lleiafrif oedd y rhain. Y prif bryderon a leisiwyd gan gleifion oedd y ffaith nad oedd eu dewisiadau ar gyfer yr enedigaeth yn cael eu hystyried a bod ymweliadau gan bartneriaid wedi'u cyfyngu.

Cytunodd yr holl ymatebwyr fod staff yn eu trin ag urddas a pharch, eu bod yn gwrtais ac yn gwrando arnynt a'u teulu/frindiau bob amser, a'u bod wedi egluro'u hopsiynau geni, unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â'u beichiogrwydd a'r cymorth a gynigir.

Roedd pawb yn gytûn eu bod wedi cael digon o wybodaeth gan y bydwagedd ar ôl yr enedigaeth am yr hyn a oedd yn digwydd ar y pryd, yr hyn y gallent ei ddisgwyl, lle gallent fynd mewn argyfwng a ble y gallent gael rhagor o gymorth.

Teimlai pawb eu bod yn gallu rhannu eu pryderon am eu hiechyd, eu hemosiynau, eu bywyd cartref, eu credoau a'u profiad o'r enedigaeth.

## **Cadw'n iach**

Gwelsom fod llawer o wybodaeth hyrwyddo iechyd wedi'i harddangos am fwydo o'r fron, cyngor ar gysylltiad croen wrth groen, iechyd meddwl ôl-enedigol a chyngor cyffredinol ar gadw'n iach cyn, yn ystod, ac ar ôl beichiogrwydd.

Roedd yr ysbyty yn barth dim ysmegu dynodedig, a oedd yn cwmpasu'r defnydd o anwedd/e-sigaréts. Gwelsom wybodaeth am roi'r gorau i ysmegu ym mhob rhan o'r uned.

Gwelsom blac ar y wal yn nodi y cafodd yr uned Cyfeillgar i Fabanod wedi'i hachredu o dan fenter UNICEF<sup>3</sup> yn 2020. Mae achrediadau'n cael eu hadolygu bob tair blynedd er mwyn cadarnhau cydymffurfedd.

---

<sup>3</sup> <https://www.unicef.org.uk/babyfriendly/> – Mae'r Fenter Cyfeillgar i Fabanod yn trawsnewid gofal iechyd i fabanod, eu mamau a'u teuluoedd yn y DU, fel rhan o bartneriaeth fyd-eang ehangach rhwng Sefydliad Iechyd y Byd ac UNICEF.

Mae posteri hylendid dwylo a chanllawiau golchi dwylo yn cael eu harddangos yn nhoiledau cleifion ac uwchben ardaloedd y sinciau.

## **Gofal ag urddas**

Yn ystod ein harolygiad, gwelsom lawer o enghreifftiau o staff yn bod yn drugarog, yn garedig ac yn gyfeillgar i gleifion a'u teuluoedd. Gwelsom staff yn trin cleifion â pharch a chwarteisi bob amser. Roedd mwyafrif y cleifion a gwblhaodd ein holiaduron yn gadarnhaol iawn am eu profiad o ofal.

Roedd cyfleusterau en-suite yn rhai o'r ystafelloedd geni ac ôl-enedigol a oedd yn helpu i wneud cleifion deimlo'n gysurus ac yn cynnal eu hurddas cleifion yn ystod eu harhosiad. Lle nad oedd cyfleusterau en-suite ar gael, roedd cyfleusterau toiled a rennir ar gael gerllaw.

Roedd ystafell fwydo breifat i famau newydd ar y ward ôl-enedigol a oedd yn ei gwneud yn bosibl i famau dreulio amser personol preifat gyda'u babanod.

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiaduron eu bod wedi gweld yr un fydwraig yn yr uned eni ag y gwnaethant yn eu hapwyntiadau cyn geni. Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion wrthym hefyd eu bod rhwng chwe a 12 wythnos i mewn i'w beichiogrwydd pan gawsant eu hapwyntiad cadw lle. Nododd cleifion sylwadau cadarnhaol ynghylch y dewisiadau a gynigiwyd iddynt ynglŷn â ble i gael eu babi, gyda'r rhan fwyaf yn nodi eu bod yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod hyn ddigwydd.

Dywedodd y mwyafrif o'r staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod wedi cael hyfforddiant ar brofedigaeth ac y byddent yn teimlo'n hyderus i ddefnyddio'r polisïau cywir i'w galluogi i ofalu'n briodol am unrhyw rieni sydd wedi cael profedigaeth yn ddiweddar.

Roedd ystafell brofedigaeth bwrpasol yn yr uned. Roedd gwaith gwella yn mynd rhagddo ar adeg yr arolygiad. Dywedodd staff wrthym fod y gwelliannau bron wedi'u cwblhau a bod ystafell arall ar gael. Roedd bydwraig profedigaeth arweiniol yn gweithio ar draws y bwrdd iechyd er mwyn cynnig cymorth a chynghor yn ystod oriau gwaith craidd.

Roedd yr ysbyty hefyd yn darparu gwasanaeth caplaniaeth ac roedd capel ysbyty aml-ffydd at ddefnydd cleifion a'u teuluoedd. Dywedodd y staff wrthym am y trefniadau ar gyfer ei gwneud yn bosibl i gleifion o wahanol ffydd i gael mynediad i'r ystafelloedd gweddio i ddiwallu eu hanghenion ysbrydol.

## Gwybodaeth i gleifion

Mae cyfarwyddiadau i'r uned famolaeth wedi'u harddangos yn glir ym mhob rhan o'r ysbyty. Roedd hyn yn ei gwneud yn hawdd i bobl ddod o hyd i'r man priodol i'w fynychu er mwyn cael gofal. Fodd bynnag, ni welsom unrhyw arwyddion ar y prif goridor ac yn ardal y fynedfa i'r ward i ddangos i ymwelwyr mai Ward 12 ydoedd.

Roedd y manylion staffio dyddiol a oedd wedi'u harddangos yn yr uned yn hysbysu cleifion am bwy fyddai'n gofalu amdanynt. Mae'r hysbysfyrddau'n llawn gwybodaeth ac yn cynnwys ffotograffau sy'n nodi staff a'u rolau a'u cyfrifoldebau. Amlygodd y tîm arolygu yr hysbysfyrddau fel maes o arfer nodedig a'u bod yn ychwanegiad defnyddiol at yr uned ers ein harolygiad diwethaf. Roedd yr hysbysfwrdd yn cynnwys gwybodaeth berthnasol a phriodol ar gyfer defnyddwyr y gwasanaeth ac ymwelwyr ac mae'n arfer sy'n werth ei rannu ar draws y bwrdd iechyd.

Gwelsom bosteri, taflenni ac arwyddion dwyieithog drwy'r uned gyfan.

Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiaduron eu bod wedi cael cymorth ynghylch sut y gallent deimlo yn emosiynol ar ôl yr enedigaeth.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'r gwasanaethau cyfieithu o fewn y bwrdd iechyd a sut y gallent gael mynediad atynt. Roedd yn bosibl nodi pa fydwragedd a oedd yn medru'r Gymraeg o'r logo siaradwr Cymraeg<sup>4</sup> ar eu gwisg neu laniard. Roedd y staff hefyd yn ymwybodol o'r cyfleuster llinell iaith.

Roedd Bwrdd Ciplwg ar Statws Cleifion<sup>5</sup> ar bob ward, a defnyddir y rhain yn ddyddiol gan dimau amlddisgyblaethol. Roedd y byrddau hyn yn cyfleu gwybodaeth glir am faterion diogelwch yn ymwneud â chleifion, a gofynion neu

---

<sup>4</sup> Mae'r brand iaith Gwaith yn ffordd hawdd o hyrwyddo gwasanaethau'r Gymraeg drwy nodi'r siaradwyr Cymraeg ar eich tîm. Os yw rhywun yn gwisgo bathodyn, neu laniard, mae hyn yn dangos eu bod yn gallu cynnal sgwrs yn Gymraeg.

<sup>5</sup> Defnyddir Byrddau Ciplwg ar Statws Cleifion mewn wardiau ysbyty i arddangos gwybodaeth bwysig am y cleifion megis: lefelau risg haint, symudedd, llif derbyn a rhyddhau, nifer y gwelyau a ddefnyddir, timau nyrso a meddygol, ymhlith eraill.

gynlluniau gofal dyddiol, ynghyd â chymorth unigol gofynnol a threfniadau rhyddhau. Roedd y byrddau hyn wedi'u gwella ers ein harolygiad diwethaf ac roeddynt bellach yn ddigidol.

Yn ystod yr arolygiad, roedd y drws i swyddfa'r staff ar Ward 12 ar agor. Gallai unrhyw un a oedd yn cerdded heibio'r swyddfa hon weld y Bwrdd Ciplwg ar Statws Cleifion yn glir. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod staff yn diogelu cyfrinachedd cleifion drwy gau'r drws i'r swyddfa.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:

- Bod arwyddion uwchben y fynedfa i Ward 12
- Bod y staff yn cadw gwybodaeth am gleifion yn gyfrinachol yn swyddfeydd y ward.

### Cyfathrebu'n effeithiol

Ar y cyfan, roedd yn ymddangos bod cleifion yn gadarnhaol am eu rhyngweithiadau â staff yn ystod eu hamser yn yr uned. Dywedodd y rhan fwyaf o gleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn teimlo'n hyderus i ofyn am help neu gyngor pan oedd angen cymorth arnynt. Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion hefyd fod staff bydwreigiaeth a meddygol wedi gwrandao arnynt yn ystod eu harhosiad. Dywedodd y rhan fwyaf o gleifion wrthym fod staff wedi siarad â nhw am eu dewisiadau geni bob amser.

Gwelsom fod y staff yn ceisio cynnal preifatrwydd cleifion ym mhob rhan o'r uned wrth gyfathrebu gwybodaeth. Fodd bynnag, gwelsom fod preifatrwydd cyfyngedig yn y gilfan â chwe gwely cyn geni oherwydd y llenni a'r ffaith ei bod yn fach, a olygodd nad oedd yn bosibl sicrhau preifatrwydd wrth gynnal sgysiau cyfrinachol. Dywedodd y staff wrthym y byddent yn ceisio cadw gwely'r gilfan ganol yn rhydd er mwyn cynnal sgysiau cyfrinachol a sicrhau preifatrwydd.

Gwelsom ei bod yn arferol i staff gau drysau ystafelloedd ymgynghori wrth ddarparu gofal er mwyn diogelu preifatrwydd ac urddas y cleifion.

Gwelsom fod staff yn yr uned yn cyfarfod ddwywaith y dydd, wrth ar adeg newid shifftiau. Cynhelir trosglwyddiadau bydwreigiaeth a meddygol ar wahân

oherwydd nad yw shifftiau bydwreigiaeth a meddygol yn dilyn yr un patrwm gwaith.

Yn ystod y cyfarfodydd trosglwyddo yr oeddem wedi gallu eu mynychu gwelwyd cyfathrebu effeithiol wrth drafod anghenion a chynlluniau cleifion, a hynny gyda'r bwriad o gynnal parhad yn y gofal. Roedd y cyfarfodydd hyn wedi'u strwythuro'n dda ac yn seiliedig ar dystiolaeth a theimlai'r tîm arolygu eu bod yn arfer nodedig.

Siaradodd staff yn gadarnhaol am dudalen Facebook Baby Talk y bwrdd iechyd yn y cyfryngau cymdeithasol, a grëwyd i alluogi mamau newydd i gyfathrebu, rhannu profiadau a rhoi adborth. Dywedodd y staff y gwnaethom gyfweld â nhw fod yr adborth gan y grŵp Facebook yn ystyrlon a buddiol iawn iddynt.

## **Gofal amserol**

Dywedodd cleifion wrthym fod y staff yn barod iawn eu cymorth ac y byddent yn rhoi sylw i'w hanghenion mewn modd amserol. Dywedodd y staff wrthym hefyd y byddent yn gwneud eu gorau i sicrhau bod gwiriadau cleifion o ran eu hanghenion personol, maethol a chysur yn cael eu cyflawni. Roedd cofnodion cleifion yn dangos bod hyn yn digwydd. Dywedodd cleifion wrthym, a gwelsom, fod clychau galw yn hawdd eu cyrraedd ac yn cael eu hateb yn brydlon.

Gwelsom fod arsylwadau ar gleifion yn cael eu cofnodi ar siart genedlaethol gydnabyddedig er mwyn ei gwneud yn bosibl nodi cleifion a allai fynd yn sâl neu ddatblygu sepsis<sup>6</sup>. Roedd y staff yn ymwybodol o'r offeryn sgrinio a'r system adrodd ar gyfer sepsis, a oedd yn ei gwneud yn bosibl gweithredu'n briodol ac yn amserol.

Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw fod y ffaith nad oes tîm staff theatr dynodedig yn golygu y gall hyn arwain at oedi i gleifion ac achosi straen gormodol ar staff. Gellir amserlennu toriadau cesaraidd dewisol ar gyfer pob dydd ond nid oes ymgynghorydd obstetreg penodedig ar gyfer yr achosion hyn.

Mae'r un ymgynghorydd yn gwasanaethu'r ward esgor, y ward cyn-geni ac argyfyngau gynaecelegol. Mae hyn yn peri risg bosibl os bydd mwy nag un

---

<sup>6</sup> Sepsis yw ymateb y corff i haint, sy'n peryglu bywyd. Mae'n digwydd pan fydd y system imiwnedd yn gorymateb i haint ac yn dechrau niweidio meinweoedd ac organau'r corff ei hun.

argyfwng yn digwydd ar yr un pryd; yn aml mae meddygon ymgynghorol eraill yn yr ysbyty yn ystod oriau gwaith, ond nid oes gwasanaeth wrth gefn ffurfiol ac nid yw hyn yn gyson ag arferion diogel dros yr hirdymor.

Dylai'r uned ystyried cynlluniau swyddi meddygon ymgynghorol sy'n dyrannu'n ffurfiol ymgynghorydd ar wahân i oruchwylio'r rhestrau o doriadau Cesaraid a gwaith gynaeolegol. Mae achos busnes wedi'i gyflwyno i alluogi hyn i ddigwydd a byddem yn argymhell bod y bwrdd iechyd yn cefnogi hyn.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r bwrdd iechyd ystyried cynlluniau swyddi meddygon ymgynghorol sy'n dyrannu'n ffurfiol ymgynghorydd ar wahân i oruchwylio'r rhestrau o doriadau Cesaraid a gwaith gynaeolegol.

## Gofal unigol

### Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Roedd cyfleusterau yn hygyrch i bawb drwy'r uned gyfan.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion cleifion a chanfod tystiolaeth bod credoau personol a dewisiadau crefyddol cleifion yn cael eu cofnodi yn ystod apwyntiadau cyn geni. Gwnaed hyn er mwyn helpu i sicrhau eu bod yn cael eu cynnal drwy gydol eu beichiogrwydd, y cyfnod esgor a gofal ôl-enedigol. Gwelsom fod cynlluniau gofal hefyd yn hybu annibyniaeth pobl ar sail eu galluoedd a aseswyd.

Mae'r syniad o gael cymorth partner geni yn cael ei hybu, ond gofynnodd yr holiadur i gleifion sut y gallai'r lleoliad wella'r gwasanaeth y mae'n ei ddarparu. Dywedodd y cleifion a gwblhaodd yr holiaduron a'r rhai y siaradwyd â hwy yn ystod yr arolygiad:

*“Hoffwn fod eich partner gyda chi bob amser. Os na, efallai ystafell addas iddyn nhw aros ynddi.”*

Dywedodd y bwrdd iechyd wrthym fod adolygiad o gyfyngiadau ar ymweliadau ar fin cael ei gynnal.

Nid oedd y pwll geni yn cael ei ddefnyddio ar adeg yr arolygiad oherwydd bod hollt wedi'i chanfod wrth iddo gael ei osod. O ganlyniad nid oedd unman i gleifion

gael rhywfaint o ryddhad mewn dŵr. Amlygwyd hyn hefyd yn holiadur y cleifion a nododd un ohonynt:

*“Fe allwn i fod wedi gwneud y tro â chael bath hir ... nid oedd modd defnyddio'r bath.”*

Gwelsom hefyd fod asesiadau'n cael eu cynnal yn ystod apwyntiadau cyn geni i bennu gofynion o ran cyfieithwyr ar y pryd neu'r wybodaeth sydd angen ei chael mewn ieithoedd eraill. Roedd llinell iaith hefyd ar gael i'r cleifion hynny nad oedd Saesneg yn iaith gyntaf iddynt, gan olygu eu bod yn gallu cael mynediad at ofal a oedd yn briodol i'w hanghenion.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y bath yn cael ei newid a'i fod ar gael i gleifion ei ddefnyddio.

### Hawliau pobl

Gwelsom y gallai partneriaid geni gael eu cynnwys mewn gofal yn unol â dymuniadau a dewisiadau cleifion. Roedd cofnodion cleifion yn dangos bod hyn yn digwydd, gan sicrhau bod pob aelod o'r tîm yn gwybod beth yw dewisiadau cleifion.

Roedd cyfyngiad ar ymweliadau ar waith ar y ward ar adeg yr adolygiad oherwydd cyfyngiadau COVID-19 ac nid oedd cyfleoedd bellach i bartneriaid a theulu ymweld yn rhydd.

Dywedodd pawb a ymatebodd i'r holiaduron eu bod yn teimlo'u bod yn gallu cael mynediad at y gofal iechyd cywir ar yr amser iawn (beth bynnag yw eu nodweddion gwarchoddedig), nododd un ymatebydd na allai ac atebodd un arall 'mae'n well gennyf beidio â dweud'.

Ni soniodd unrhyw ymatebydd am achosion o gamwahaniaethu wrth gael mynediad at y gwasanaeth iechyd hwn neu ei ddefnyddio (ar sail unrhyw un o'r nodweddion gwarchoddedig).

### Gwranddo a dysgu o adborth

Roedd gwybodaeth ar gael ar wefan y bwrdd iechyd yn ymwneud â'r weithdrefn i gleifion ei dilyn pe bai ganddynt bryderon yr hoffent eu codi. Dywedodd yr uwch-dîm rheoli wrthym fod rheolwyr wardiau'r uned yn gwbl ymwybodol o ganllawiau

Gweithio i Wella<sup>7</sup> a sut i ymdrin â chwynion. Cadarnhaodd y staff eu bod yn ymwybodol o sut i ymdrin â chwynion a rhoi manylion y Cyngor Iechyd Cymuned (CIC)<sup>8</sup> i gleifion, a allai ddarparu eiriolaeth a chymorth i godi pryder am eu gofal.

Yn dilyn cwyn anffurfiol, byddai metronau arweiniol yn cysylltu â'r claf i gynnig trafod ei broblemau â nhw, ac yn hyrwyddo'r weithdrefn gwyno ffurfiol pe byddent yn dymuno dilyn y trywydd hwn. Eglurodd y staff fod hon yn ffordd o fynd i'r afael â phryderon, ond hefyd i dynnu sylw at unrhyw faterion ymarfer y gallai fod angen eu datrys. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn parhau i gyfathrebu â chleifion a theuluoedd drwy gydol y broses o ymdrin ag unrhyw bryder a dderbynnir, a bod teuluoedd yn cael y cyfle i gwrdd ag uwch aelodau o staff i drafod pryderon.

Gwnaethom siarad â'r tîm Gwasanaethau Cyngor a Chyswllt Cleifion (PALS) yn yr ysbyty. Eu rôl oedd sicrhau bod pwyslais ar gael barn ar y gofal a'r gwasanaethau a ddarperir. Eglurodd y tîm bod unrhyw wybodaeth am yr uned famolaeth yn cael ei rhannu â thimau'r ward.

Dywedodd staff wrthym eu bod yn gofyn am adborth cleifion yn rheolaidd drwy gardiau adborth neu holiaduron, ac ymhlith y rhain mae'r cerdyn sylwadau Dweud Eich Dweud a roddir i bob claf. Gweithredir ar y rhain gan yr uwch-dîm rheoli a chaiff sylwadau eu rhannu â staff yn ystod arfarniadau a chyfarfodydd am yr hyn a ddysgwyd.

Roedd cyfarwyddiaeth gwasanaethau mamolaeth y bwrdd iechyd wedi sefydlu cyfarfod llywodraethu misol yn ddiweddar. Trafodir adborth gan gleifion fel rhan o gyfarfod agenda sefydlog, ac roedd y dogfennau a adolygwyd yn cadarnhau hyn. Hwylusodd hyn y broses o rannu'r hyn a ddysgwyd o adborth cleifion ar draws adrannau mamolaeth y bwrdd iechyd.

---

<sup>7</sup> <http://www.wales.nhs.uk/sites3/home.cfm?orgid=932>

<sup>8</sup> <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/899/home>

## Darparu gofal diogel ac effeithiol

*Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Roedd prosesau ac archwiliadau sefydledig ar waith i reoli risgiau, iechyd a diogelwch, a heintiau. Roedd hyn yn ei gwneud yn bosibl i'r staff barhau i ddarparu gofal diogel a chlinigol effeithiol.

Roedd cynllunio gofal dyddiol yn hybu diogelwch cleifion a'r gofal a ddarperir i gleifion. Roedd cofnodion y cleifion y gwnaethom eu hadolygu adlewyrchu hyn.

Rhaid i gofnodion cleifion fod yn ddiogel ac allan o olwg y cyhoedd bob amser.

### **Gofal diogel**

Ymdriniwyd â'n pryderon ynghylch rheoli meddyginiaeth a rheoli gwybodaeth hynod sensitif am gleifion o dan ein proses sicrwydd uniongyrchol. Roedd hyn yn golygu y gwnaethom ysgrifennu at y gwasanaeth ar unwaith yn dilyn yr arolygiad, a'i gwneud yn ofynnol bod camau unioni'n cael eu cymryd ar unwaith. Rhoddir manylion y gwelliannau uniongyrchol a nodwyd gennym yn Atodiad B.

### **Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch**

Roedd yn ymddangos bod yr uned yn lân, wedi'i goleuo'n briodol ac wedi'i hawyru'n dda. Gwelsom fod y rhan fwyaf o'r ardaloedd yn rhydd o annibendod ac yn drefnus. Roedd rhai newidiadau amgylcheddol parhaus hefyd yn digwydd yn ystod yr arolygiadau, ac roedd yr uned brofedigaeth a'r uned asesu yn y broses o gael eu hadnewyddu. Bu newidiadau amgylcheddol nodedig ers arolygiad diwethaf AGIC, a helpodd i wella profiad y claf, ond mae angen newidiadau pellach o hyd.

Yn ystod y daith amgylcheddol o amgylch yr ysbyty, gwelsom fod y drysau mynediad a'r drysau mewnol ar y wardiau wedi'u hatgyweirio dros dro, gan wneud i'r drysau edrych yn flêr a bod ôl treulio arnynt. Gwnaethom nodi peryglon baglu lle roedd tâp ar y lloriau yn gorchuddio difrod, a amlygwyd hyn fel maes i'w wella yn ystod ein harolygiad diwethaf. Mae'n bwysig bod y bwrdd iechyd yn

cywiro hyn er mwyn atal unrhyw gwympiadau neu ddigwyddiadau. Hefyd, roedd nifer o deils nenfwd ar hyd y coridorau sy'n arwain at y wardiau ar goll ac roedd gwifrau i'w gweld. Byddai'r wardiau hefyd yn elwa ar gael eu hail-baentio er mwyn gwneud yr ardaloedd yn fwy dymunol. Dywedodd y bwrdd iechyd wrthym y byddai'r meysydd hyn yn rhan o'r gwelliannau parhaus.

Gwelsom ystafelloedd amlbwrpas a wardiau glân, a gwelsom gypyrddau meddyginiaeth yn cael eu gadael heb eu cloi yn ystod ein taith gychwynol o amgylch yr uned. Teimlwyd y gallai hyn beri risg bosibl i ddiogelwch cleifion a hefyd risg o ran gwybodaeth adnabyddadwy cleifion. Codwyd hyn gennym ar adeg yr arolygiad, a lle roedd hynny'n bosibl, unionwyd hyn. Rydym wedi cynnwys rhagor o fanylion ynghylch storio meddyginiaethau'n ddiogel ac ymdrin â gwybodaeth cleifion o dan yr adran Rheoli meddyginiaethau, yr adran Llywodraethu gwybodaeth a'r adran Technoleg cyfathrebu yn yr adroddiad hwn.

Ystyriodd y tîm arolygu ddiogelwch babanod newydd-anedig yn yr ystafell eni a Ward 12. Mae angen gwelliannau o hyd o ran y mesurau diogelwch sydd ar waith ar hyn o bryd er mwyn sicrhau bod babanod yn ddiogel ac wedi'u hamddiffyn yn llawn bob amser. Defnyddiodd y bwrdd iechyd system larwm diogelwch crud a seinir gan fecanwaith ag allwedd (ar gyfer y rhiant neu'r fydwraig). Ar ôl ei droi ymlaen, pe bai babi'n cael ei godi o'r crud, byddai larwm yn canu. Fodd bynnag, er bod camerâu teledu cylch cyfyng yn eu lle, nid yw bob amser yn bosibl monitro'r allanfeydd a gallai cleifion ac ymwelwyr adael yn hawdd ar unrhyw adeg.

Bu gwelliannau ers yr arolygiad diwethaf, ond roedd gan y tîm arolygu rai pryderon o hyd ynghylch diogelwch mynedfeydd ac allanfeydd ar y wardiau, yn enwedig pan nad yw ardal y ddesg yn cael eu goruchwylio ac yn absenoldeb gwasanaeth 24 awr.

Roedd tystiolaeth bod driliau cipio babanod wedi'u cynnal, ond mae'n bwysig bod y bwrdd iechyd yn edrych ar fesurau diogelwch ychwanegol o amgylch y mynedfeydd a'r allanfeydd er mwyn sicrhau bod babanod yn cael eu diogelu cymaint â phosibl ar y ward.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:

- Bod y lloriau'n cael eu trwsio
- Bod teils nenfwd coll yn cael eu newid
- Bod drysau mynediad a mewinol yn cael eu newid

- Bod ardaloedd wardiau a choridorau yn cael eu hail-baentio
- Bod gwelliannau amgylcheddol sy'n mynd rhagddynt yn parhau i adlewyrchu gofal mamolaeth modern
- Bod clo ystafell aml-bwrpas Ward 12 yn cael ei drwsio ac yn parhau i fod o dan glo
- Bod mesurau diogelwch pellach yn cael eu hystyried wrth fynedfeydd ac allanfeydd y ward er mwyn gwella diogelwch.

### Atal cwmpiadau

Gwelsom fod asesiad risg ar waith ar gyfer cleifion sy'n cael eu derbyn i'r uned a'r rhai sy'n defnyddio pyllau geni. Eglurodd y staff fod adroddiadau am gwmpiadau yn cael eu cofnodi ar system electronig y bwrdd iechyd ar gyfer cofnodi digwyddiadau. Eglurodd y staff fod y system adrodd am ddigwyddiadau yn sicrhau y gweithredir ar wersi a ddysgwyd yn briodol.

### Atal a rheoli heintiau

Gwelsom fod mannau clinigol yr uned yn lân ac yn daclus, a gwelsom fod cyfarpar diogelu personol ar gael ym mhob man ac yn cael ei ddefnyddio gan bob gweithiwr gofal iechyd proffesiynol. Nododd y cleifion a gwblhaodd holiadur a chleifion y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn meddwl bod yr uned yn drefnus, yn lân ac yn daclus.

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom yr holl staff yn glynu wrth y safonau o wisgo dim o dan y penelin<sup>9</sup> a gwelsom dechnegau hylendid dwylo da. Roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo ar gael, ynghyd â phosteri yn dangos y weithdrefn golchi

---

<sup>9</sup> Yr arfer gorau yw i staff sy'n ymwneud â gofal cleifion uniongyrchol beidio â gwisgo unrhyw beth o dan y pen-elin. Mae hyn yn cynnwys gwisgo dillad â llewys byr, a pheidio â gwisgo gemwaith (ac eithrio band priodas plaen), oriawr arddwrn, sglein ewinedd neu ewinedd ffug.

dwylo gywir i'w dilyn fel proc gweledol i'r staff. Roedd hylif hylendid dwylo ar gael ym mhob rhan o'r uned.

Cadarnhaodd y dogfennau a adolygwyd fod cydymffurfedd â hyfforddiant atal a rheoli heintiau yn uchel. Mae unrhyw bryderon a godir ynghylch atal a rheoli heintiau yn cael eu huwchgyfeirio at uwch aelodau o staff.

Gwelsom ganlyniadau archwiliad rheoli heintiau yr oedd y bwrdd iechyd wedi'i gynnal yn ddiweddar. Roedd yr archwiliad hwn yn dangos bod cydymffurfedd â safonau rheoli heintiau yn uchel a bod unrhyw waith gofynnol yn cael ei gyflawni'n briodol mewn modd amserol. Er bod rhestrau gwirio glanhau ar gael i staff eu cwblhau, nid oedd lle ar y ffurflenni i ddogfennu a chofnodi unrhyw wallau, problemau neu wybodaeth ychwanegol.

Gwelsom dystiolaeth yn cadarnhau bod y bwrdd iechyd wedi diweddarau polisïau a gweithdrefnau perthnasol er mwyn bodloni gofynion ychwanegol yn sgil pandemig COVID-19. Mae hylif diheintio dwylo a masgiau wyneb ar gael ac mae staff ac ymwelwyr ledled yr ysbyty yn gwisgo'r masgiau.

Dywedodd y staff wrthym fod ganddynt fynediad at gyfarpar diogelu personol ac offer glanhau priodol. Roedd cyfathrebu rheolaidd drwy gyfarfodydd a negeseuon e-bost yn sicrhau bod pawb yn cael y cyngor a'r canllawiau diweddaraf ar COVID-19.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod rhestrau gwirio glanhau yn galluogi staff i gofnodi gwybodaeth ychwanegol.

#### Maeth a hydradu

Darperir diodydd poeth ac oer i'r cleifion yn ystod y dydd a'r nos, ac mae cyfleusterau ar gael i brynu diodydd hefyd. Roedd cyfleusterau ar gael i staff yn yr uned i wneud tost a pharatoi diodydd ar gyfer cleifion y tu allan i oriau craidd.

Dywedodd y cleifion wrthym fod y bwyd a'r diodydd oedd ar gael o safon dda. Roedd cofnodion gofal y cleifion yn dogfennu eu gofynion maethol.

Mae nyrs feithrin ar ddyletswydd saith diwrnod yr wythnos gyda gwasanaeth 24 awr. Gwelsom wybodaeth am gefnogi bwydo o'r fron ar hysbysfyrdau yn yr ardaloedd ôl-enedigol a chynenedigol. Mae pecynnau ar gael hefyd i gefnogi menywod ar ôl eu rhyddhau.

Dywedodd staff wrthym hefyd, oherwydd y cyfyngiadau ar ymweliadau, fod mwy o gyfleoedd iddynt hybu bwydo o'r fron a darparu cymorth ychwanegol i gleifion. Dywedodd y staff wrthym fod cleifion yn ymddangos yn fwy cyfforddus yn bwydo eu babanod pan nad oedd pobl eraill yn bresennol ar y ward.

## Rheoli meddyginiaethau

Gwnaethom edrych ar y trefniadau ar gyfer storio meddyginiaethau yn yr unedau geni ac mae'r tymheredd yn cael ei wirio'n gyson.

Ystyriodd y tîm arolygu y trefniadau ar gyfer storio meddyginiaethau'n ddiogel ym mhob rhan o'r uned a chanfuwyd bod dau fan lle nad oedd meddyginiaeth yn cael ei storio'n ddiogel i atal mynediad heb awdurdod ac er mwyn cynnal diogelwch cleifion. Roedd drws yr ystafell aml-bwrpas ar Ward 12 heb ei gloi ar noson gyntaf yr arolygiad a'r diwrnod canlynol, ac nid oedd yr oergell feddyginiaeth ar Ward 12 yn yr ystafell aml-bwrpas wedi'i chloi ychwaith ar ddiwrnod cyntaf yr arolygiad a'r diwrnod canlynol.

Adolygodd y tîm arolygu'r camau ar gyfer ysgogi'r cyfnod esgor, a chanfuwyd bod meddygon yn rhagnodi Propess a Prostaglandinau (hormonau a ddefnyddir wrth ysgogi'r cyfnod esgor er mwyn agor ceg y groth), gydag amwysedd ynghylch arwydd neu gyfarwyddyd o ran y gofynion wrth eu rhoi i gleifion.

Dywedodd staff wrthym fod y bydwagedd sy'n gofalu am fenyw esgor yn rhagdybio pryd i ddefnyddio pa feddyginiaeth. Teimlai'r tîm arolygu fod gan hyn y potensial i gynyddu'r risg o ymarfer anniogel, oherwydd y risg o roi meddyginiaeth anghywir neu amhriodol. Gwelwyd bod cyrsiau lluosog o prostaglandinau yn cael eu rhoi fel mater o drefn. Sylwodd y tîm arolygu nad oedd menywod yn cael gwybodaeth glir am eu hopsiynau os oeddynt yn cael eu hysgogi ond nad oeddynt wedi dechrau'r cyfnod esgor.

Aethpwyd i'r afael â'n pryderon ynghylch y materion hyn o dan ein proses sicrwydd uniongyrchol. Rhoddir manylion y gwelliannau uniongyrchol a nodwyd gennym yn Atodiad B.

Roedd anghysondebau yn y ffordd y mae'r llyfr cyffuriau a reolir yn cael ei ddefnyddio. Roedd y llyfr log ar Ward 12 yn flêr gyda phethau wedi'u croesi allan ac nid oedd y cofnodion a welwyd bob amser yn cadw at y polisi ar waredu cyffuriau a reolir nas defnyddiwyd. Hefyd ar Ward 12 roedd arferion anghyson o ran gwirio, dogfennu a llofnodi'r llyfr cyffuriau a reolir ar ddechrau a diwedd pob shift. Nid oedd unrhyw lofnodion yn erbyn y sawl a oedd wedi gwirio'r cyffuriau a reolir ar bob shift, a oedd yn arddangos arfer gwael a diffyg cydymffurfio â'r polisi cyffuriau a reolir.

Gwelsom un aelod o staff yn chwilio am gyffuriau theatr a archebwyd. Gwiriodd yr aelod hwn o staff ddrôr heb ei gloi wrth chwilio am y cyffuriau hyn. Mae'n bwysig bod pob cyffur yn cael ei storio'n briodol ar y ward a bod gwiriadau cydymffurfedd yn cael eu cynnal fel mater o drefn, gan sicrhau bod pob cyffur yn cael ei storio'n gywir.

Roedd polisi rheoli meddyginiaethau'r bwrdd iechyd ar gael yn electronig ac roedd hefyd yn cael ei storio mewn ffeil yn ardaloedd yr uned. Cadarnhaodd y staff eu bod yn gwybod ble i gael gafael arni pan fo angen.

Roedd cymorth fferyllfa ar gael i'r uned ac roedd proses gyfrifiadurol y tu allan i oriau ar gael fel bod staff yn gallu gwirio stoc ac argaeledd cyffuriau ar draws yr ysbyty yn ystod yr amseroedd hyn, er mwyn sicrhau nad oedd unrhyw oedi cyn i gleifion dderbyn meddyginiaeth. Roedd yr uned hefyd yn gallu cael gafael ar stoc o feddyginiaethau y gallai cleifion fynd â nhw adref, gan ei gwneud yn bosibl rhyddhau cleifion mewn modd amserol.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:

- Bod yr holl feddyginiaeth yn cael ei storio'n briodol ac yn ddiogel
- Bod yr oergell feddyginiaeth yn cael ei chloi pan nad yw'n cael ei defnyddio
- Bod y llyfr cyffuriau a reolir wedi'i gwblhau'n gywir a bod y cofnodion yn cydymffurfio â pholisïau'r bwrdd iechyd.

#### Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

Roedd gan y bwrdd iechyd bolisïau a gweithdrefnau ar waith i hyrwyddo ac amddiffyn lles plant ac oedolion a allai fod mewn perygl. Roedd hyfforddiant diogelu yn orfodol, a chadarnhaodd yr holl staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod wedi derbyn hyfforddiant o fewn y 12 mis diwethaf.

Roedd bydwaig diogelu arweiniol benodedig ar gyfer y bwrdd iechyd a oedd yn darparu cymorth a hyfforddiant i staff. Mae'r holl staff yn cael hyfforddiant diogelu sy'n cynnwys canllawiau ar anffurfio organau cenhedlu benywod, cam-drin domestig, cam-fanteisio rhywiol a chleisiau ar fabanod, yn ogystal â'r gweithdrefnau i'w dilyn yn achos pryder diogelu.

Roedd sesiynau goruchwyllo diogelu ffurfiol, a gyflwynwyd yn ddiweddar, yn annog staff i drafod materion mewn sesiwn oruchwyllo grŵp. Mae'n ofynnol i staff fynychu dwy sesiwn y flwyddyn. Roedd y staff y siaradwyd â nhw yn dangos bod ganddynt wybodaeth dda am brotocolau diogelu a dealltwriaeth dda ohonynt.

Roedd gweithdrefnau priodol ar waith i dynnu sylw staff at bryderon diogelu ynghylch cleifion sy'n cael eu derbyn i'r uned. Roedd hyn yn sicrhau bod y gofal a'r driniaeth a ddarperir yn briodol. Roedd yr holl staff y siaradwyd â nhw yn ymwybodol o'r gweithdrefnau a'r prosesau i'w dilyn mewn perthynas â chleifion yr oedd pryderon diogelu yn berthnasol iddynt.

### **Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol**

Gwnaethom ystyried y trefniadau ar gyfer gwirio offer dadebru yn yr uned eni a'r clinig cyn geni. Cadarnhaodd y dogfennau a adolygwyd fod offer yn cael ei gwirio'n rheolaidd a bod hynny'n sicrhau ei fod yn addas i'w ddefnyddio.

Cynhelir gwiriadau ar ddyfeisiau dadebru<sup>10</sup> ddwywaith y dydd a phryd bynnag y mae claf yn defnyddio ystafell. Roedd rhestrau gwirio ar gyfer cynnwys droriau yn bresennol, ond nid oes rhestr wirio ar gyfer y broses o wirio sugnedd, y llif aer, y gwresogydd, na'r poteli nwy. Nid oedd unrhyw adrannau ar y ffurflen rhestr wirio ar gyfer amlygu a oedd unrhyw bryderon neu offer ar goll. Dywedodd staff wrthym fod y gwiriadau hyn yn cael eu cynnal, ond nid oedd y ffurflenni a welsom yn gallu adlewyrchu hyn.

Gwnaethom nodi hefyd nad yw poteli aer ac ocsigen yn cael eu gwirio o ran eu defnyddio'n annibynnol nac o ran gweld faint sydd ar ôl yn y poteli. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob rhestr wirio yn dogfennu eitemau coll neu fod bylchau arnynt er mwyn cofnodi pryderon.

Canfu'r adolygwyr nad oedd gan y masgiau ocsigen ar y ward esgor a oedd wedi'u gosod yno ar gyfer argyfyngau fag cronfa ddŵr i atal ail-anadlu o'r math a ddefnyddir mewn ysbytai eraill ac yn ystod hyfforddiant PROMPT aml-broffesiynol. Dylai tîm amlddisgyblaethol y ward esgor sicrhau ei hun y gall

---

<sup>10</sup> Dyfais i'w chael yn ystod y cyfnod esgor a gweithdrefnau geni, sy'n cyfuno llwyfan therapi cynhesu effeithiol ynghyd â'r cydrannau sydd eu hangen ar gyfer achos brys clinigol a dadebru.

masgiau ocsigen priodol gyflenwi ocsigen â chrynodiad uchel a llif uchel ar gyfer yr achosion prin pan y gallai hyn fod o bwys. Byddem yn argymhell safoni'r math o fwgwd ocsigen i'w ddefnyddio mewn argyfyngau obstetrig ledled Cymru.

Canfuom fod archwiliadau rheolaidd ar ddarnau eraill o offer megis peiriannau pwysedd gwaed yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Fodd bynnag, nid oedd staff yn gallu dod o hyd i thermomedr ar gyfer pwll yr ystafell eni. Dywedwyd wrthym fod y thermomedr presennol yn cael ei lanhau ar ôl ei ddefnyddio. Dylai'r bwrdd iechyd ystyried thermomedrau untro a fyddai ar gael yn rhwydd ac yn hawdd i'w canfod.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:

- Bod ffurflenni rhestr wirio yn cael eu hadolygu ac yn cynnwys yr holl wiriadau perthnasol a blychau ar gyfer gwybodaeth ychwanegol
- Bod thermomedrau eraill yn cael eu hystyried ar gyfer gwirio tymheredd y pwll geni.
- Bod masgiau ocsigen yn fasgiau llif uchel a'u bod yn cydymffurfio â safonau cenedlaethol ar gyfer gofal obstetrig.

## Gofal effeithiol

### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Dywedodd y staff wrthym eu bod y cleifion yn gyfforddus ac yn derbyn gofal da – cadarnhaodd y cleifion hyn. Roedd opsiynau lleddfu poen ar gael i gleifion yn ystod y cyfnod esgor.

Gwelsom staff yn blaenoriaethu anghenion clinigol a gofal cleifion yn effeithiol yn yr uned ac, o'r cofnodion cleifion a adolygwyd, roedd yn amlwg bod blaenoriaethu anghenion clinigol yn flaenllaw wrth gynllunio gofal.

Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn hapus ag ansawdd y gofal yr oeddynt yn gallu ei roi i'w cleifion. Fodd bynnag, dywedodd rhai o'r staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo bod parhad yn y gofal ar goll weithiau. Disgrifiodd staff sut roeddynt yn symud ar draws wardiau a theimlent nad oedd hyn yn helpu i feithrin perthnasoedd â chleifion.

## Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Roedd bydwaig ymchwil a gwella glinigol arweiniol ar waith, yr oedd ei rôl yn cwmpasu gwasanaethau mamolaeth ar draws y bwrdd iechyd.

Disgrifiodd uwch-reolwyr brosiectau i gefnogi addysg ym maes protocol asesu twf a phwysau optimaidd cysylltiedig â beichiogrwydd (GAP a GROW)<sup>11</sup>, epilepsi mewn cleifion, ac roedd cynnal adolygiad llawn o ddogfennaeth a chreu llwybrau gofal ar draws yr uned yn brosiectau diweddar a gwblhawyd. Llwyddodd bydwaig datblygu ymarfer mamolaeth y bwrdd iechyd i hyrwyddo hyfforddiant obstetrig ac amlbroffesiynol ymarferol (PROMPT)<sup>12</sup> yn llwyddiannus, o fewn y gwasanaethau mamolaeth ar draws y bwrdd iechyd.

## Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Ystyriodd y tîm arolygu y trefniadau ar gyfer sicrhau cyfrinachedd cleifion ac ar gyfer cydymffurfio â'r Rheoliadau Llywodraethu Gwybodaeth a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2018 yn yr uned a gwnaethom nodi rhai gwelliannau ers ein hymweliad diwethaf, gan nodi y gosodwyd cypyrddau wedi'u cloi er mwyn cadw nodiadau'n gyfrinachol. Fodd bynnag, yn ystod yr arolygiad gadawyd nodiadau heb neb yn gofalu amdanynt yn swyddfa'r staff ar Ward 12, roedd drws y swyddfa hon yn llydan agored heb unrhyw staff yn bresennol.

Roedd y trolïau cleifion a oedd yn cynnwys nodiadau cyfrinachol yn swyddfa'r staff heb eu cloi. Hefyd, roedd eiddo personol y staff yn weladwy ac yn hygyrch ac roedd sgrin y cyfrifiadur yn cael ei gadael mewn statws 'byw' gan ei gwneud yn bosibl i bobl eraill gael mynediad. Roedd hyn yn golygu y gallai unrhyw ymwelwyr neu gleifion fynd i mewn i'r ardal hon a chael mynediad at wybodaeth bersonol a chyfrinachol.

---

<sup>11</sup> GAP – Protocol asesu twf (Growth assessment protocol) – GROW – Y pwysau gorau posibl yn ymwneud â beichiogrwydd (Gestation related optimal weight) (Gweithdrefn a gynlluniwyd i fonitro problemau posibl yn ystod beichiogrwydd, yn benodol ar gyfer menywod sydd wedi geni babanod bach yn flaenorol)

<sup>12</sup> PROMPT – Hyfforddiant Obstetrig Ymarferol ac Aml-Broffesiynol. Mae'n bwysig o'r safbwynt ei fod yn hyfforddi timau i fod yn dimau o fewn eu hamgylchedd gwaith.

Dywedwyd wrthym fod gan yr holl staff yn yr uned eu manylion mewngofnodi eu hunain i gael mynediad cyfrifiadurol er mwyn sicrhau bod gofynion llywodraethu gwybodaeth yn cael eu bodloni. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod nifero nodiadau Post-it ynghlwm wrth y waliau gyda manylion mewngofnodi a chyfrineiriau arnynt.

Nododd y tîm arolygu ffolder diogelu a oedd yn cael ei storio ar silff lyfrau ar Ward 12, a gallai defnyddwyr y gwasanaeth ac aelodau o'r cyhoedd o bosibl gael mynediad ato. Roedd hon yn cynnwys gwybodaeth sensitif iawn am ddefnyddwyr y gwasanaeth sy'n agored i niwed.

Aethpwyd i'r afael â'n pryderon ynghylch lleoliad y ffolder diogelu o dan ein proses sicrwydd uniongyrchol. Rhoddir manylion y gwelliannau uniongyrchol a nodwyd gennym yn Atodiad B.

Roedd y fewnrwyd fewnol yn llawn gwybodaeth i staff, gydag ystod eang a hygyrch o bolisiau a gweithdrefnau clinigol bydwreigiaeth a meddygol.

Gwelsom fod yr uned yn defnyddio dangosfwrdd mamolaeth. Offeryn electronig yw hwn i fonitro perfformiad clinigol a safonau llywodraethu eu gwasanaethau. Mae hefyd yn helpu i nodi materion diogelwch cleifion fel bod camau amserol a phriodol yn cael eu cymryd i sicrhau gofal o ansawdd uchel.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:

- Bod cofnodion cleifion yn ddiogel ac yn cael eu cadw allan o'r golwg bob amser er mwyn cynnal cyfrinachedd cleifion
- Bod sgriniau cyfrifiaduron yn cael eu cloi pan nad ydynt yn cael eu defnyddio
- Nad yw manylion mewngofnodi i gyfrifiaduron a chyfrineiriau mewn golwg
- Bod drysau wedi'u cloi er mwyn atal mynediad heb awdurdod.

### Cadw cofnodion

Ar y cyfan, canfuom fod safon y cofnodion a gedwir yn ddigonol a bod cynlluniau gofal wedi'u dogfennu'n dda rhwng timau amlddisgyblaethol. Fodd bynnag, roedd

rhai o'r cofnodion cleifion a adolygwyd gennym yn anhrefnus ac yn anodd eu llywio.

Gwelsom siartiau arsylwi priodol a bwndeli llwybr gofal. Fodd bynnag, gwelsom hefyd anghysondebau ar draws y cofnodion iechyd meddygol a adolygwyd, gyda bylchau megis llofnod, llofnodion anadnabyddadwy a'r ffaith nad oedd enwau a rhif cofrestru'r Cyngor Meddygol Cyffredinol wedi'u dogfennu.

Nid oedd asesiadau risg bob amser yn dogfennu penderfyniadau clinigol yn glir. Mewn un cofnod a welwyd, datblygodd ymgynghorydd ar alwad mewn obstetreg ac anestheteg gynllun anesthetig. Roedd y claf o dan sylw yn glaf risg uchel gyda hanes meddygol cymhleth a dylid fod wedi sicrhau bod asesiad risg a chynllun gofal yn eu lle ar ei gyfer er mwyn helpu i ddiwallu anghenion y claf. Dylai'r asesiad hwn fod wedi'i gwblhau drwy apwyntiad mewn clinig anesthetig cyn geni. Nid oedd yn glir pam na ddigwyddodd hyn.

Hefyd, roedd adrannau ar goll o ragor o nodiadau cynnedigol pellach a adolygwyd, megis canlyniadau sgrinio, ac nid oeddynt bob amser yn dogfennu dewisiadau cleifion yn glir. Mae'n bwysig bod asesiadau risg yn cael eu cwblhau'n gywir ac mewn modd amserol er mwyn helpu i gynllunio risg – gofal priodol drwy gydol taith amenedigol claf.

Mewn tair set o nodiadau a adolygwyd gennym, gwnaethom nodi penderfyniadau rheoli a oedd yn treiglo dros dri diwrnod gyda mewnbwn o dri ymgynghorydd wrth iddynt fynd o amgylch y ward. O'r nodiadau a adolygwyd, roedd yn aneglur pa drafodaethau manwl ynghylch risgiau neu fuddion a drafodwyd oherwydd nad oedd unrhyw gofnodion manwl yn y nodiadau a welsom. Dylid gwneud cofnodion cywir yng nghofnodion y cleifion o unrhyw drafodaethau a phenderfyniadau a wneir.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:

- Bod rhifau Cyngor Meddygol Cyffredinol a rhifau PIN yn cael eu cofnodi yng nghofnodion cleifion
- Bod modd adnabod llofnod pob aelod o staff a sicrhau nad oes unrhyw fylchau yn yr adrannau ar gyfer llofnod
- Bod asesiadau risg yn cael eu cynnal a'u cofnodi yng nghofnodion cleifion

- Bod trafodaethau a phenderfyniadau meddygol yn cael eu cofnodi'n gywir yng nghofnodion cleifion.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi darparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.*

Roedd yn gadarnhaol gweld y gwelliannau a wnaed ers ein harolygiad diwethaf.

Gwelsom fod y staff wedi ymrwymo i ddarparu gofal cleifion i safonau uchel. Drwy gydol yr arolygiad, roedd y staff yn barod i dderbyn ein barn, ein canfyddiadau a'n hargymhellion.

Roedd y staff yn gadarnhaol ynghylch y cymorth roeddynt yn ei gael gan eu cydweithwyr a'u timau rheoli.

Arddangosodd y pennaeth bydwreigiaeth arweinyddiaeth ymroddedig ac angerddol, gyda chefnogaeth gan dîm amlddisgyblaethol ymrwymedig.

Roedd y staff yn gallu cael mynediad at hyfforddiant i'w galluogi i ddatblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth a oedd yn briodol i'w rolau.

## Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Gwelsom fod gwelliannau wedi'u gwneud ers ein harolygiad diwethaf yn 2019. Roedd systemau a phrosesau wedi'u diffinio'n dda ar waith i sicrhau bod yr ysbyty yn canolbwyntio ar wella'i wasanaethau yn barhaus. Cyflawnwyd hyn drwy raglen archwilio barhaus a'i strwythur llywodraethu sefydledig, a oedd yn galluogi aelodau o staff allweddol/enwebedig i gyfarfod yn rheolaidd i drafod canlyniadau clinigol a oedd yn gysylltiedig â darparu gofal cleifion.

Arddangosodd y pennaeth bydwreigiaeth arweinyddiaeth ymroddedig ac angerddol gyda chefnogaeth timau amlddisgyblaethol ymroddedig. Roedd y tîm yn grŵp cydlynol o arweinwyr ac yn ystod cyfweiliadau â nhw gwnaethant

ddangos eu bod yn gwerthfawrogi ac yn gofalu am y staff a lefel y gwasanaeth yr oeddynt yn ei darparu i gleifion.

Yn ystod ein hymweliad, gwelsom rywfaint o waith tîm amlddisgyblaethol rhagorol hefyd, a welwyd o fewn a'r tu allan i oriau ar gyfer argyfyngau, rhwng y timau obstetreg ac anestheteg.

Gwelsom y gwasanaeth yn cynnal nifer o gyfarfodydd rheolaidd i wella gwasanaethau a chryfhau trefniadau llywodraethu. Roedd cyfarfodydd o'r fath yn cynnwys grŵp ansawdd a diogelwch mamolaeth misol, cyfarfod adolygu archwilio misol a chyfarfod adolygu digwyddiadau clinigol obstetrig, cyfarfod sgrinio uwchsain misol, fforymau'r ward esgor, y ward ôl-enedigol a'r ward newyddenedigol, a chyfarfod amlddisgyblaethol wythnosol.

Dangosodd y bwrdd iechyd fod proses glir a chadarn ar gyfer rheoli digwyddiadau clinigol. Cynhaliwyd cyfarfodydd strategaeth gyda'r tîm amlddisgyblaethol er mwyn penderfynu pwy fydd yn arwain ar ddigwyddiad difrifol, ac mae'r tîm amlddisgyblaethol yn cynnal arolygiaeth barhaus. Yn ystod y cyfarfod strategaeth, mae arweinydd Cadw Mewn Cysylltiad yn cael ei enwebu ac mae teuluoedd yn cael eu diweddarau. Bydd y person Cadw Mewn Cysylltiad yn cysylltu ac yn siarad â'r teuluoedd ac yn gofyn iddynt gymryd rhan lawn.

Cynhelir cyfarfodydd risg a llywodraethu misol ar draws pob un o dri safle'r bwrdd iechyd pan drafodir digwyddiadau yr adroddwyd amdanynt, ymchwiliadau a'u canfyddiadau, mewn fformat amlddisgyblaethol. Gwelsom fod cofnodion yn cael eu llunio, a bod gwybodaeth / yr hyn a ddysgwyd yn cael eu rhannu ar draws gwasanaethau mamolaeth ar draws y bwrdd iechyd er mwyn cefnogi newidiadau i arferion a dysgu. Cyflwynodd y fydwraig llywodraethu arweiniol themâu a thueddiadau yn ystod y cyfarfod hwn, gyda'r bwriad o dynnu sylw at unrhyw feysydd ymarfer yr oedd angen mynd i'r afael â nhw ar draws y bwrdd iechyd.

Cadarnhaodd yr uwch-dîm rheoli fod camau gweithredu ac argymhellion o archwiliadau mamolaeth cenedlaethol, megis Mothers and Babies: Reducing Risk through Audits and Confidential Enquiries (MBBRACE)<sup>13</sup> a gwybodaeth

---

<sup>13</sup> Mae MBRACE – Mothers and Babies: Reducing Risk through Audits and Confidential Enquiries yn weithredol ar draws y DU gyda'r nod o ddarparu gwybodaeth gadarn i gefnogi'r

Mae Pob Baban yn Cyfri<sup>14</sup> yn cael eu rhannu. Gwneir hyn er mwyn gwella gofal a phrofiad cleifion a'r dull o adrodd ar leihau risg a diogelwch cleifion yn y dyfodol. Derbynnir dilysiad allanol blynyddol gan y cyrff archwilio cenedlaethol perthnasol megis MBBRACE, ac mae gwaith parhaus yn mynd rhagddo i sicrhau bod yr uned yn unol â'r argymhellion a wnaed.

Dyweddodd yr holl staff y gwnaethom siarad â nhw fod y sefydliad yn eu hannog i roi gwybod am gamgymeriadau, damweiniau y bu bron iddynt ddigwydd neu ddigwyddiadau, ac nad oedd y rhain byth yn cael eu trin mewn ffordd gosbol.

Dyweddodd uwch-reolwyr wrthym am system 'greatix' sy'n rhoi adborth cadarnhaol i staff. Mae 'greatix' yn cael eu trafod yn wythnosol yn ystod cyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol uwch. Dywedodd uwch-aelodau o staff wrthym fod y rhain wedi'u dethol yn ofalus, gan sicrhau ei bod yn broses ystyrlon. Siaradodd staff y ward yn gadarnhaol am y system 'greatix' a pha mor werth chweil ydyw iddynt o ran eu hymarfer a'u datblygiad proffesiynol parhaus.

Gwelsom fod proses ar waith ar gyfer monitro presenoldeb staff a chydymffurfedd â hyfforddiant gorfodol. Mae hyfforddiant gorfodol y bwrdd iechyd, megis iechyd a diogelwch, diogelwch tân, ac atal a diogelu heintiau yn cael eu gwblhau ar-lein yn bennaf a'i fonitro'n ganolog drwy gofnod staff electronig. Mae staff yn cael prociau i roi gwybod iddynt pan fydd eu hyfforddiant ar fin dod i ben, er mwyn sicrhau bod gweithgareddau ailhyfforddi yn cael eu cwblhau o fewn amserlenni priodol.

Dyweddodd y staff wrthym nad oedd yr hyfforddiant codi a chario a ddarperir i staff mamolaeth ar hyn o bryd yn addas i'r diben. Byddai'n fuddiol i'r bwrdd iechyd gynllunio a datblygu rhywfaint o hyfforddiant pwrpasol yn benodol ar gyfer staff sy'n gweithio ar y wardiau mamolaeth, gan ganolbwyntio ar godi a chario mewn wardiau mamolaeth, sy'n faes mwy cymhleth na'r safon sylfaenol bresennol a ddarperir.

---

gwaith o ddarparu gwasanaethau i famau, babanod newydd-anedig a babanod sy'n ddiogel, yn deg, o ansawdd uchel, ac sy'n canolbwyntio ar y claf.

<sup>14</sup> Mae Pob Baban yn Cyfri – rhaglen gwella ansawdd genedlaethol Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr (RCOG) i leihau nifer y babanod sy'n marw neu yr achosir anabledd difrifol iddynt o ganlyniad i ddigwyddiadau yn ystod y cyfnod esgor.

Mae'r gwasanaeth yn cynnal tri diwrnod astudio gorfodol yn ymwneud â mamolaeth yn ystod y flwyddyn. Ar un o'r diwrnodau cynhelir hyfforddiant PROMPT, sy'n ddigwyddiad hyfforddi amlddisgyblaethol, a ddefnyddir i annog gweithio amlddisgyblaethol mewn sefyllfaoedd brys. Dywedodd yr holl staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn mynychu'r hyfforddiant hwn pan fônt yn gallu a'i fod yn ddefnyddiol iawn. Roedd ffigurau cydymffurfedd ar gyfer hyfforddiant PROMPT yn rhoi sicrwydd i ni bod hyfforddiant rheolaidd yn cael ei gynnal.

Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn cael arfarniadau rheolaidd a'u bod yn ystyried eu bod yn gyfarfodydd cadarnhaol i hybu datblygiad proffesiynol parhaus, a chafodd hyn ei gadarnhau gan y data cydymffurfedd a welwyd.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r bwrdd iechyd gynllunio a chyflwyno cwrs codi a chario pwrpasol ar gyfer staff sy'n gweithio yn yr uned famolaeth.

## Staff ac adnoddau

### Gweithlu

Dywedodd yr holl staff y gwnaethom siarad â nhw fod yr arweinyddiaeth a'r gefnogaeth, boed ar lefel bersonol neu o safbwynt gwaith, yn rhagorol. Anogwyd gwaith tîm cryf gan bob un o'r uwch reolwyr a gwnaeth y staff gadarnhau hyn yn yr adborth cadarnhaol a dderbyniwyd yn ystod cyfweiliadau wyneb yn wyneb.

Dywedodd uwch-reolwyr wrthym fod rotâu bydwreigiaeth yn cael eu rheoli'n dda yn yr uned. Os oedd unrhyw brinder mewn staff cyflenwi, dywedodd staff wrthym eu bod yn galw bydwagedd cymunedol i mewn. Byddai uwch-reolwyr hefyd yn camu i mewn i gyflenwi pan fo angen. Fodd bynnag, dywedodd rhai o'r staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo nad oedd modd cymharu'r cymarebau staffio ar eu wardiau nhw ag unedau mamolaeth eraill yn y bwrdd iechyd a theimlai staff y dylid cynyddu'r niferoedd yn yr uned famolaeth. Dywedodd staff

wrthym fod angen adolygu Birthrate Plus<sup>15</sup>. Nid oedd hyn wedi'i wneud ers nifer o flynyddoedd a theimlai rhai aelodau o staff fod angen ei adolygu er mwyn darparu staff ychwanegol ar gyfer yr uned.

Roedd y Meddyg Cyswllt Staff Arbenigol a oedd yn gweithio yn y theatr wedi bod yn cyflenwi absenoldebau yn y gweithle, ac o ganlyniad roedd yn colli allan ar brofiadau gwerthfawr. Mae'n bwysig bod y bwrdd iechyd yn llenwi'r swyddi gweigion presennol ar lefel meddygon Cyswllt Staff Arbenigol a fyddai'n ei gwneud yn bosib i'r meddygon Cyswllt Staff Arbenigol parhaol ddychwelyd i'w cynlluniau swyddi fel yr oeddynt cyn COVID-19. Teimlai'r tîm adolygu bod y rota ar alwad gyntaf, wedi'i staffio gan uwch-ymarferwyr nyrsio bydwreigiaeth rhagorol, yn agored i effeithiau ymddeoliadau presennol ac ymddeoliadau sydd ar fin digwydd ac mae angen cynllunio olyniaeth i ymdrin â hyn. Wedi dweud hynny, gwelodd yr adolygwyr rywfaint o ofal cleifion rhagorol a ddarparwyd gan staff locwm.

Gwelsom fod prosesau uwchgyfeirio ar waith i'w defnyddio ar adegau o brinder staff, ac roedd yr holl staff y siaradwyd â nhw yn ymwybodol o sut i ddod o hyd i'r polisi a sut i uwchgyfeirio materion.

Nododd staff y ceir oedi hir gydag atgyfeiriadau i wasanaethau iechyd galwedigaethol. Roedd hyn yn achosi oedi wrth i staff ddychwelyd i'r gwaith, ac roedd rhai aelodau o staff wedi cael problemau pan oeddynt wedi dychwelyd i'r gwaith heb gynllun graddol i wneud hynny. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau yr eir i'r afael ag atgyfeiriadau iechyd galwedigaethol mewn modd amserol er mwyn sicrhau bod staff yn dychwelyd i'r gwaith ar yr amser cywir, heb unrhyw oedi diangen a chyda'r cynlluniau cymorth priodol yn eu lle.

Dywedodd y staff wrthym fod cymorth lles da ar gael. Mae'n bwysig bod y bwrdd iechyd yn monitro'r staff cadw mewn cysylltiad yn agos, gan sicrhau bod ganddynt fynediad ychwanegol at wasanaethau lles er mwyn eu cynorthwyo a'u cefnogi i gyflawni'r rôl hon.

---

<sup>15</sup> Ar hyn o bryd, Birthrate Plus® yw'r unig offeryn bydwreigiaeth, cenedlaethol, penodol sy'n darparu'r wybodaeth a'r mewnwelediad sydd eu hangen er mwyn ei gwneud yn bosibl modelu nifer y bydwreagedd, y cymysgedd o sgiliau, a defnydd, a i lywio penderfyniadau am wasanaethau diogel a chynaliadwy.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom siarad â nifer o fyfyrwyr bydwreigiaeth a siaradodd yn gadarnhaol am y cymorth a'r arweiniad y maent yn ei gael gan staff sy'n eu mentora a'u cefnogi.

Roedd peth pryder ynghylch yr ôl-groniad o ddigwyddiadau. Mae staff ychwanegol ar waith i ddelio â'r ôl-groniad, ond mae cyllid ar gyfer y staff ychwanegol ar fin dod i ben. Mae'n bwysig bod y cyllid ar gyfer staff yn parhau er mwyn clirio'r ôl-groniad. Bydd hyn yn sicrhau bod y gwersi a ddysgwyd ac argymhellion i newid gofal ac arfer yn digwydd yn brydlon ac yn amserol.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:

- Bod adolygiad o Birthrate Plus yn cael ei gynnal
- Bod atgyfeiriadau at wasanaethau iechyd galwedigaethol yn cael eu trin mewn modd amserol
- Bod cymorth lles ychwanegol ar gael i staff Cadw Mewn Cysylltiad
- Bod yr ôl-groniad o ddigwyddiadau wedi'i glirio a dylid parhau i ystyried cyllid pellach.

## 4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain yn cael eu manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgfyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion lle rydym am i'r gwasanaeth lunio cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn llunio cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Datgan yn glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn gyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol a synhwyrol
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

## 5. Sut rydym yn arolygu ysbytai

Mae amrywiaeth o ddulliau ar gael inni pan fyddwn yn arolygu ysbytai'r GIG, gan gynnwys:

- Arolygiad un ward trylwyr: rydym yn cynnal adolygiad trylwyr a manwl o un ward
- Arolygiad aml-ward: rydym yn ymweld â nifer o wardiau ac adrannau ar un safle ysbyty i nodi materion neu themâu a allai fod yn berthnasol i'r ysbyty cyfan
- Arolygiad aml-ysbyty: rydym yn ymweld â nifer o ysbytai yn yr un bwrdd iechyd i asesu llywodraethu a darpariaeth gwasanaethau cyfan

Mae arolygiadau o ysbytai yn ddirybudd fel rheol. Byddwn bob tro yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd oherwydd bod hyn yn ein caniatáu i weld gwasanaethau yn y ffordd y maent yn gweithredu fel arfer. Nid yw'r gwasanaeth yn derbyn unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Rydym yn gwirio sut y mae ysbytai'n bodloni [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#). Rydym yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill lle bo'n berthnasol.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg o'r safonau gofal o fewn ysbytai.

Ceir gwybodaeth bellach am [sut](#) mae AGIC yn arolygu'r GIG [https://hiw.org.uk/sites/default/files/2019-05/170328inspectnhsen\\_0.pdf](https://hiw.org.uk/sites/default/files/2019-05/170328inspectnhsen_0.pdf) ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatrwyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a uwchgyfeiriwyd yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith / effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon dybryd a nodwyd	Effaith / effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon dybryd yn ystod yr arolygiad hwn			

## Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

**Ysbyty:** Ysbyty Tywysoges Cymru

**Ward/adran:** Uned famolaeth

**Dyddiad yr arolygiad:** 22 – 24 Mawrth 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safonol	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y camau ar gyfer rhagnodi meddyginiaeth i ysgogi'r cyfnod esgor yn cael eu hadolygu er mwyn lleihau'r risg o gamgymeriadau wrth roi meddyginiaeth. Rhaid dogfennu cofnodion trafodaethau gyda'r claf hefyd.	2.6 Rheoli Meddyginiaeth 3.5 Cadw cofnodion	1. Caiff sticeri a ddatblygwyd yn 2019 eu hail-amlygu. 2. Pennir na ddylid "archebu" gweithdrefnau ysgogi'r cyfnod esgor hyd nes y ceir cadarnhad bod sticer meddyginiaeth wedi'i ddefnyddio ar y siart feddyginiaeth. 3. Anfonwyd e-bost at yr holl staff meddygol i'w hatgoffa o bwysigrwydd rhoi gwybodaeth lawn	Pennaeth Bydwreigiaeth  Pennaeth Bydwreigiaeth  Cyfarwyddwr Clinigol	Cwblhawyd 7. 4.22

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safonol	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		mewn perthynas â'r camau wrth ysgogi'r cyfnod esgor.		
<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod systemau priodol ar waith sy'n golygu bod meddyginiaethau'n cael eu storio'n ddiogel bob amser.</p> <p>Rhaid i'r bwrdd iechyd hefyd sicrhau bod trefniadau goruchwyliaeth gadarn yn eu lle er mwyn sicrhau bod staff yn cydymffurfio â'r systemau a roddwyd ar waith.</p>		<p>4. Mae'r Adran Ystadau wedi ailasesu'r clo ar gyfer yr ystafell feddyginiaeth .</p> <p>5. Mae mecanwaith cau â sbring wedi'i archebu ar frys ar gyfer drws yr ystafell feddyginiaeth er mwyn ei helpu i gau'n effeithiol.</p> <p>6. Mae clo wedi'i archebu ar frys ar gyfer yr oergell.</p> <p>7. Mae hapwiriadau ddwywaith y dydd wedi dechrau er mwyn casglu tystiolaeth o'r graddau y mae trefniadau diogelwch meddyginiaethau wedi'u gwreiddio.</p> <p>8. Anfonwyd negeseuon at dimau bydwreigiaeth a staff cymorth, drwy'r cyfryngau cymdeithasol ac e-bost, i'w hatgoffa o'u rôl o ran</p>	Pennaeth Bydwreigiaeth	Cwblhawyd 7.4.22

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safonol	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		sichrau cydymffurfedd yn y maes hwn.		
<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd i sichrau:</p> <p>Bod cofnodion hynod sensitif defnyddiwr y gwasanaeth yn cael eu storio mewn modd cyfrinachol a diogel.</p>		<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Mae'r holl wybodaeth yn cynnwys gwybodaeth adnabyddadwy am fenywod wedi'i thynnu o'r silff lyfrau ar y ward esgor.</li> <li>2. Mae'r ffolderi hyn bellach wedi'u cadw y tu ôl i ddrws gyda chlo bysellbad sy'n cael ei wirio ar hap (wedi'i gynyddu i ddwywaith y dydd)</li> <li>3. Anfonwyd negeseuon e-bost at y tîm bydwreigiaeth a'r staff cymorth i egluro'r rhesymeg dros y newid hwn a cheisio'u cefnogaeth i gynnal y safon hon wrth symud ymlaen.</li> </ol>	Pennaeth Bydwreigiaeth	Cwblhawyd 7.4.22

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sichrau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth: Sarah Fox**

**Swydd: Pennaeth Bydwreigiaeth**

**Dyddiad: 21.4.2022**

## Atodiad C – Cynllun gwella

**Ysbyty:** Ysbyty Tywysoges Cymru

**Ward/adran:** Uned famolaeth

**Dyddiad yr arolygiad:** 22 – 24 Mawrth 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safonol	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<b>Ansawdd profiad y claf</b>				
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod arwyddion uwchben y fynedfa i Ward 12.	4.2 Gwybodaeth i gleifion	Mae arwyddion yn bresennol uwchben y fynedfa i Ward 12.  Wedi'i nodi yn y calendr o 7.12.21 ymlaen, bydd y Pennaeth Bydwreigiaeth a'r Tîm Ystadau'n cerdded o amgylch yr ardal bob tri mis i gynllunio gwelliannau i'r ardal yn barhaus o safbwynt ystadau.	Pennaeth Bydwreigiaeth/Pennaeth Ystadau	Cwblhawyd 26.5.22

Yr hyn y mae angen ei wella	Safonol	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod staff yn cadw gwybodaeth am gleifion yn gyfrinachol yn swyddfeydd y ward.	4.2 Gwybodaeth i gleifion	Gofynnwyd am ddyfynbris ar gyfer dyfais mynediad â cherdyn allwedd er mwyn mynd i mewn ac allan o ddrws swyddfa Ward 12	Rheolwr y Grŵp Gwasanaethau Clinigol	Mehfin 2022
Dylai'r bwrdd iechyd ystyried cynlluniau swyddi meddygon ymgynghorol sy'n pennu'n ffurfiol ymgynghorydd ar wahân i oruchwylio'r rhestrau toriadau Cesaraid a gwaith gynaeoleg.	5.1 Mynediad amserol	Mae gwaith datblygu achos busnes yn mynd rhagddo ar gyfer sefydlu rhestrau o achosion theatr dewisol mamolaeth ar wahân. Ar ôl ei gwblhau, caiff ei gyflwyno drwy'r strwythur Grŵp Ardal Integredig ar gyfer ei ystyried.	Rheolwr y Grŵp Gwasanaethau Clinigol	Awst 2022
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y bath yn cael ei newid a'i fod ar gael i gleifion ei ddefnyddio.	6.1 Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth	Mae'r bath wedi'i osod a'r profion dŵr wedi'u cwblhau.		Cwblhawyd 20.4.22

## Darparu gofal diogel ac effeithiol

Yr hyn y mae angen ei wella	Safonol	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y llawr yn cael ei drwsio.	2.1 Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch	Mae llawr newydd yn y ward esgor. Caiff lloriau newydd eu gosod yn Ward 12 fel rhan o brosiect gwaith adeiladu parhaus.	Cwblhawyd  Rheolwr gwaith gwella'r adran famolaeth	Cwblhawyd Ebrill 2022  Mehefin 2022
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod teils nenfwd newydd yn cael eu gosod yn lle'r rhai sydd ar goll.	2.1 Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch	Mae teils nenfwd newydd wedi'u gosod yn y coridor i'r ward esgor. Bydd teils nenfwd newydd yn cael eu gosod yn y coridor i Ward 12 fel rhan o brosiect gwaith adeiladu parhaus.	Rheolwr gwaith gwella'r adran famolaeth	Cwblhawyd Ebrill 2022  Mehefin 2022
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod drysau mynediad a drysau mewnol newydd yn cael eu gosod yn lle'r rhai presennol.	2.1 Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch	Mae'r drysau mewnol ac allanol wedi'u hamddiffyn â gorchuddion newydd er mwyn lleihau tolciau a sgwffian.  Mae drws newydd i'r ward esgor wedi'i osod.	Cwblhawyd Ebrill 2022	Rheolwr y Grŵp

Yr hyn y mae angen ei wella	Safonol	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Ceisir dyfynbris ar gyfer gosod drysau newydd yn lle pob un o'r drysau presennol.	Mehefin 2022	Gwasanaetha u Clinigol
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod ardaloedd y wardiau a'r coridorau yn cael eu hailbaentio.	2.1 Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch	Mae ardal y coridor i'r ward esgor wedi'i hailbaentio.  Ceisir dyfynbris ar gyfer ail-baentio ardal y coridor i Ward 12 ac ardal y ward.	Mehefin 2022	Rheolwr y Grŵp Gwasanaetha u Clinigol  Rheolwr y Grŵp Gwasanaetha u Clinigol
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwelliannau amgylcheddol parhaus yn parhau er mwyn adlewyrchu gofal mamolaeth modern.	2.1 Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch	Wedi'i nodi yn y calendr o 7.12.21 ymlaen, bydd y Pennaeth Bydwreigiaeth a'r Tîm Ystadau'n cerdded o amgylch yr ardal bob tri mis i gynllunio gwelliannau i'r ardal yn barhaus o safbwynt ystadau.	Pennaeth Bydwreigiaeth/Pennaeth Ystadau	Cwblhawyd Ebrill 2022

Yr hyn y mae angen ei wella	Safonol	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod clo'r ystafell amlbwrpas wedi'i osod a'i fod yn parhau i fod wedi'i gloi.	2.1 Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch	Trwsiodd yr Adran Ystadau y clo  Mae aelod o'r uwch-dîm bydwreigiaeth yn monitro bod y drws yn cau yn ddiogel ddwywaith y dydd	Uwch-fydwraig	Cwblhawyd Mawrth 2022  Yn barhaus – adolygir yr archwiliad yn fisol ac mae llwybrau gwella'n ofynnol.
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod mesurau diogelwch pellach yn cael eu hystyried wrth fynedfeydd ac allanfeydd y ward er mwyn gwella diogelwch.	2.1 Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch	Mae cais wedi'i gyflwyno am ddyfynbris ar gyfer dyfais mynediad â cherdyn allwedd er mwyn gadael ward 12 a'r ward esgor.	Rheolwr y Grŵp Gwasanaethau Clinigol	Mehefin 2022

Yr hyn y mae angen ei wella	Safonol	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod rhestrau gwirio glanhau yn galluogi staff i gofnodi gwybodaeth ychwanegol.	2.4 Atal a rheoli heintiau a dihalogi	Mae'r rhestr wirio ar gyfer y dyfeisiau dadebru wedi'i diwygio er mwyn ei gwneud yn fwy eglur.	Uwch-fydwraig	Cwblhawyd Mai 2022
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob meddyginiaeth yn cael ei storio'n briodol ac yn ddiogel.	2.6 Rheoli meddyginiaethau	Mae meddyginiaeth yn cael ei storio'n ddiogel ac yn briodol, gan gadw at ganllawiau'r bwrdd iechyd. Mae aelod o'r uwch-dîm bydwreigiaeth yn monitro diogelwch ddwywaith y dydd.	Uwch-fydwraig	Yn barhaus – adolygir yr archwiliad yn fisol ac mae llwybrau gwella'n ofynnol.  Cwblhawyd Mawrth 2022
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr oergell feddyginiaeth yn cael ei chloi pan nad yw'n cael ei defnyddio.	2.6 Rheoli meddyginiaethau	Mae clo diogel ynghlwm wrth yr oergell feddyginiaeth.  Mae aelod o'r uwch-dîm bydwreigiaeth yn monitro diogelwch ddwywaith y dydd.	Uwch-fydwraig	Cwblhawyd Mawrth 2022  Yn barhaus – adolygir yr

Yr hyn y mae angen ei wella	Safonol	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
				archwiliad yn fisol ac mae llwybrau gwella'n ofynnol.
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y llyfr cyffuriau a reolir yn cael ei gwblhau'n gywir a bod cofnodion yn cydymffurfio â pholisïau'r bwrdd iechyd.	2.6 Rheoli meddyginiaethau	Bob tri mis, cynhelir archwiliad ar y cyd rhwng yr adran fferylliaeth ac uwch fydwagedd o'r gweithdrefnau ar gyfer rhoi a chofnodi cyffuriau a reolir.	Yr adran fferylliaeth a'r Uwch-fydwraig	Yn barhaus – adolygir yr archwiliad bob tri mis ac mae llwybrau gwella'n ofynnol.
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod ffurflenni rhestr wirio yn cael eu hadolygu a'u bod yn cynnwys yr holl wiriadau perthnasol a blychau ar gyfer gwybodaeth ychwanegol.	2.9 Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol	Mae'r rhestr wirio ar gyfer dyfeisiau dadebru wedi'i diwygio er mwyn ei gwneud yn fwy eglur.	Uwch-fydwraig	Cwblhawyd Mai 2022

Yr hyn y mae angen ei wella	Safonol	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod thermomedrau eraill yn cael eu hystyried ar gyfer gwirio tymheredd y pwll geni.	2.9 Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol	Mae thermomedr yn ystafell y pwll yn barhaol. Thermomedrau eraill wedi'u prynu fel stoc.	Uwch-fydwraig	Cwblhawyd Mai 2022
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod masgiau ocsigen yn cydymffurfio â safonau cenedlaethol ar gyfer gofal obstetrig.	2.9 Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol	<p>Mae masgiau llif uchel yn rhan o stoc graidd ein troli dadebru ond byddant bellach yn eitemau stoc ym mhob ystafell yn y ward esgor.</p> <p>Anfonwyd cais drwy e-bost at y rhwydwaith mamolaeth a newyddenedigol i ystyried safoni'r offer mewn wardiau esgor er mwyn cefnogi gwelliannau yng Nghymru gyfan.</p>	Uwch-fydwraig  Pennaeth Bydwreigiaeth	Cwblhawyd Mai 2022  Cwblhawyd Mai 2022
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cofnodion cleifion yn ddiogel ac yn cael eu cadw allan o'r golwg, bob amser, er mwyn cynnal cyfrinachedd cleifion.	3.4 Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu	Cedwir holl gofnodion y cleifion mewn troliâu diogel ac o dan glo. Mae aelod o'r uwch-dîm bydwreigiaeth yn monitro diogelwch cofnodion cleifion ddwywaith y dydd.	Uwch-fydwraig	Yn barhaus – adolygir yr archwiliad yn fisol ac mae llwybrau

Yr hyn y mae angen ei wella	Safonol	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
				gwella'n ofynnol.
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod sgriniau cyfrifiaduron yn cael eu cloi pan nad ydynt yn cael eu defnyddio.	3.4 Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu	Mae staff yn cael eu hatgoffa o'u cyfrifoldebau o ran llywodraethu gwybodaeth y bwrdd iechyd drwy hyfforddiant gorfodol yn y Cofnod Staff Electronig. Yn gyffredinol, mae'r gyfradd gydymffurfedd gyffredinol tua 50% – byddwn yn symud tuag at gydymffurfedd lawn.	Bydwagedd Datblygu Ymarfer	Darperir yr archwiliad misol o gyfraddau cydymffurfedd gan y Grŵp Ardal Integredig. Darperir y trywydd ar gyfer gwella gan Reolaeth Data Cynnyrch.
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau nad yw manylion mewngofnodi cyfrifiadurol a chyfrineiriau mewn golwg.	3.4 Llywodraethu gwybodaeth a	Cynhelir hapwiriadau i sicrhau nad oes unrhyw gyfrineiriau cyfrifiadurol i'w gweld mewn manau clinigol.	Pennaeth Bydwreigiaeth	Yn barhaus – archwiliad drwy'r system

Yr hyn y mae angen ei wella	Safonol	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	technoleg cyfathrebu	Cynhelir gwaith monitro parhaus drwy archwiliadau amgylcheddol a gynhelir ac a archifwyd drwy'r system AmaT.	Uwch-fydwraig	AMaT – creffir arno'n fisol yn ystod cyfarfodydd WESEE.
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod drysau'n cael eu cloi er mwyn atal mynediad heb awdurdod.	3.4 Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu	<p>Mae'r drws i'r swyddfa yn Ward 12 yn cael ei fonitro ddwywaith y dydd gan aelod o'r uwch-dîm bydwreigiaeth i sicrhau bod yr ystafell yn cael ei defnyddio neu fod y drws ar gau.</p> <p>Mae cais am ddyfynbris wedi'i wneud ar gyfer dyfais mynediad â cherdyn allwedd i mewn i swyddfa Ward 12</p>	<p>Uwch-fydwraig</p> <p>Rheolwr y Grŵp Gwasanaethau Clinigol</p>	<p>Yn barhaus – adolygir yr archwiliad yn fisol ac mae llwybrau gwella'n ofynnol.</p> <p>Mehefin 2022</p>
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod rhifau'r Cyngor Meddygol Cyffredinol a rhifau PIN yn cael eu cofnodi yng nghofnodion cleifion.	3.5 Cadw cofnodion	Bydd stampiau rhifau PIN y Cyngor Meddygol Cyffredinol a'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn cael eu darparu ar	Cyfarwyddwr Bydwreigiaeth/Cy	Awst 2022

Yr hyn y mae angen ei wella	Safonol	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		gyfer holl staff proffesiynol y gwasanaeth i gefnogi'r gwelliant o ran cadw cofnodion.	farwyddwyr Clinigol	
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod llofnod pob aelod o staff yn adnabyddadwy heb unrhyw fylchau yn yr adrannau ar gyfer llofnod.	3.5 Cadw cofnodion	Bydd y defnydd o'r stampiau'n cael ei archwilio drwy'r archwiliad cadw cofnodion blynyddol treigl. Rhoddir adborth ar y canfyddiadau yn flynyddol a chaiff cynlluniau gwella eu datblygu bob chwarter.	Goruchwyliwr Clinigol i Fydwragedd	Awst 2022
<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod asesiadau risg yn cael eu cynnal a'u cofnodi yng nghofnodion y cleifion.</p> <p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod trafodaethau a phenderfyniadau meddygol yn cael eu cofnodi'n gywir yng nghofnodion y cleifion.</p>	3.5 Cadw cofnodion	Bydd asesiadau risg, trafodaethau a phenderfyniadau meddygol yn cael eu hychwanegu at yr archwiliad cadw cofnodion a bydd holl staff meddygol y gwasanaeth yn cymryd rhan yn yr archwiliad blynyddol hwn er mwyn ysgogi gwelliant amlbroffesiynol yn y maes hwn.	Goruchwyliwr Clinigol i Fydwragedd	Awst 2022

Yr hyn y mae angen ei wella	Safonol	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<b>Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth</b>				
Dylai'r bwrdd iechyd gynllunio a chyflwyno cwrs codi a chario pwrpasol ar gyfer staff sy'n gweithio yn yr uned famolaeth.	Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd	Mae'r aelod hyfforddedig o'r gwasanaeth sy'n darparu hyfforddiant codi a chario ar fin gadael y bwrdd iechyd.  Bydd yr uwch-dîm arwain a thîm hyfforddiant y bwrdd iechyd yn mynd i'r afael â'r ffordd orau o ddarparu'r hyfforddiant hwn ar y cyd, a bydd cynllun â llwybrau priodol ar gyfer sicrhau cydymffurfedd â hyfforddiant yn cael ei greu.	Bydwagedd Datblygu Ymarfer	Awst 2022
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod adolygiad o Birthrate Plus yn cael ei gynnal.	7.1 Y gweithlu	Bydd ailasesiad o Birthrate Plus yn dechrau yn ystod yr wythnos sy'n dechrau 31.5.22.	Arweinydd Intrapartum	Mehefin 2022
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod atgyfeiriadau iechyd galwedigaethol yn cael eu trin mewn modd amserol.	7.1 Y gweithlu	Gofynnodd Arweinydd y Gwasanaethau Iechyd Galwedigaethol am amser targed er mwyn mynd i'r afael ag atgyfeiriadau er mwyn cefnogi'r broses o roi gwybodaeth realistig a chywir i aelodau o staff.	Pennaeth Bydwreigiaeth	Mehefin 2022

Yr hyn y mae angen ei wella	Safonol	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cymorth lles ychwanegol ac amserol ar gael i staff Cadw mewn Cysylltiad.	7.1 Y gweithlu	Gofynnodd tîm y gweithlu am adnoddau penodol ar gyfer staff Cadw mewn Cysylltiad wrth symud ymlaen.	Partner Gweithlu Bydwraig Llywodraethu	Mehefin 2022
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr ôl-groniad o ddigwyddiadau yn cael ei glirio, a dylid parhau i ystyried cyllid pellach.	7.1 Y gweithlu	Disgwylir ôl-groniad o ddigwyddiadau ddod i ben erbyn 31.5.22. Targed gwasanaeth y cytunwyd arno: Pob digwyddiad wedi'i reoli a'i gau o fewn tri mis – gan ddefnyddio traciwr gweithredu Datix ar gyfer gwaith parhaus.	Bydwraig Llywodraethu	Byddai rheolaeth Datix yn cael ei harchwilio'n fisol trwy gyfarfod sicrwydd WESEE

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (llythrennau bras): Sarah Fox**

## Swydd: Pennaeth Bydwreigiaeth

Dyddiad: 27/5/2022